



Y RHWYDWAITH YMCHWIL
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH
RESEARCH NETWORK

Lles meddyliol a throsglwyddo i ysgol uwchradd

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Mehefin 2020

Mae lles meddyliol pobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol. Un pryder arbennig yw'r berthynas rhwng cyfoeth a lles, lle gwelwn bobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig yn nodi lefel is o les, ac mae'r anghydraddoldeb cymdeithasol hwn o ran lles yn parhau pan maen nhw'n oedolion. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod amgylcheddau cymdeithasol ysgolion yn effeithio ar les pobl ifanc, felly a allai trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd fod yn bwynt allweddol lle gellir gwarchod lles meddyliol.

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Yn ystod eu cyfnod mewn ysgol uwchradd, caiff lles pobl ifanc ei ddylanwadu, nid yn unig gan eu hamgylchiadau cartref, ond hefyd gan y lefel gyffredinol o gyfoeth ymhlith disgyblion eu hysgol, a'u safle yn hierarchaeth gymdeithasol eu hysgol.

Mae trosglwyddo yn garreg filltir arwyddocaol lle mae plant yn gweld perthnasoedd agos â chyfeillion ac athrawon ysgolion cynradd yn dod i ben. Fel arfer, mae ysgolion uwchradd yn fwy amrywiol nag ysgolion cynradd, a hefyd mae llawer o fyfyrwyr yn profi newid sydyn yn eu safle yn hierarchaeth gymdeithasol eu hysgol wrth iddynt fynd i ysgol uwchradd sydd â phroffil cymdeithasol mwy neu lai cyfoethog na'u hysgol gynradd.



Yr hyn a wnaethom...

- Defnyddiom ddata gan 39,836 o fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 ac 8 a gymerodd ran yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2017/18 yng Nghymru.
- I fesur cyfoeth mewn ysgolion, defnyddiom ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar lefel yr hawl i gael pryddau ysgol am ddim ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd.
- I fesur cyfoeth o ran amgylchiadau cartref myfyrwyr, defnyddiom gwestiynau Graddfa Cyfoeth Teuluol yr arolwg, ac i fesur lles meddyliol, defnyddiom raddfa Fer Lles Meddyliol Warwig a Chaeredin.
- Cyfrifom sgôr ar gyfer pob myfyriwr, yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng lefel yr hawl i bryddau ysgol am ddim yn eu hysgol gynradd ac yn eu hysgol uwchradd, a dadansoddi'r berthynas rhwng y sgôr hon a lles meddyliol myfyrwyr.

Yn gryno

- Mae nodweddion myfyrwyr unigol, fel rhyw, ethnigrwydd ac amgylchiadau cartref, yn rhagfynegyddion arwyddocaol o les meddyliol yn yr ysgol uwchradd.
- Fodd bynnag, mae cyd-destun yr ysgol gynradd y daw myfyriwr ohoni a chyd-destun eu hysgol uwchradd bresennol yn dylanwadu'n annibynnol ar les meddyliol ym mlynnyddoedd 7 ac 8.
- Mae myfyrwyr sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd fwy cyfoethog na'u hysgol gynradd yn debygol o nodi lles gwaeth.



@SHRNWales



SHRN@caerdydd.ac.uk



SHRN.org.uk

Yr hyn a ganfuom...

Lles mewn ysgolion uwchradd

- Cafodd y rhan fwyaf o'r amrywiad a welwyd yn lles meddyliol myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 ac 8 ei hesbonio gan wahaniaethau yn eu nodweddion unigol (rhyw ac ethnigrwydd) a'u hamgylchiadau cartref.
- Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r amrywiad mewn lles yn ymwneud â'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd roedd myfyrwyr yn eu mynychu, gyda lles gwaeth yn cael ei nodi gan fyfyrwyr a fynychodd ysgolion cynradd neu uwchradd mwy difreintiedig.

Yr effaith y mae trosglwyddo yn ei chael ar les

- Roedd myfyrwyr a drosglwyddodd o ysgol gynradd fwy cyfoethog i ysgol uwchradd lai cyfoethog (h.y.

symud i ysgol â lefel uwch o hawl i brydau ysgol am ddim) yn fwy tebygol o nodi lles meddyliol gwell.

- I'r gwrthwyneb, roedd myfyrwyr a symudodd o ysgol gynradd lai cyfoethog i ysgol uwchradd fwy cyfoethog wrth drosglwyddo yn fwy tebygol o nodi lles meddyliol gwaeth.



Materion i'w hystyried

Defnyddiodd yr astudiaeth ddata o sampl fawr, genedlaethol gynrychioliadol, o ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Defnyddiwyd mesur dilysedig o les meddyliol ymhlith myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 ac 8, ond ni fesurwyd eu lles cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Nid oedd y dadansoddiad yn cynnwys nodweddion ar lefel ysgol ac eithrio'r hawl i brydau ysgol am ddim, e.e. lefel afiechyd meddwl ymhlith rhieni.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Mae trosglwyddo yn bwynt allweddol yng ngyrfa ysgol plentyn, lle mae anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â lles meddyliol yn debygol o ehangu. Mae plant o'r cartrefi a'r ysgolion cynradd lleiaf cyfoethog yn fwyaf tebygol o brofi dirywiad yn eu lles meddyliol wrth drosglwyddo, gan fod eu hysgol uwchradd yn debygol o fod â phroffil gymdeithasol mwy cyfoethog na'u hysgol gynradd, ac felly, bydd eu safle yn hierarchaeth gymdeithasol eu hysgol newydd yn is.
- Gall cyfuniad o ymyriadau effeithiol cyffredinol a thargedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ar y pwynt trosglwyddo, wella ymhellach y gwaith y mae ysgolion uwchradd eisoes yn ei wneud gyda'u clwstwr o ysgolion cynradd, a lleihau'r anghydraddoldebau hyn.
- Mae ymyriadau trosglwyddo cynhwysfawr sy'n amlochrog a hirdymor, gan gynnwys cyfranogiad rhieni a chreu ymdeimlad o gymuned a pherthyn, yn debygol o fod yn bwysig.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1002/berj.3616>

Moore G et al (2020) Socioeconomic status, mental wellbeing and transition to secondary school: Analysis of the School Health Research Network/Health Behaviour in School-aged Children survey in Wales. British Educational Research Journal doi: 10.1002/berj.3616